

<b>PWYLLGOR :</b>	<b>Pwyllgor Safonau</b>
<b>DYDDIAD :</b>	<b>21 Ionawr 2019</b>
<b>TEITL :</b>	<b>Cofrestr Buddiannau Aelodau</b>
<b>AWDUR :</b>	<b>Swyddog Monitro</b>
<b>GWEITHREDU :</b>	<b>Gofyn am farn y Pwyllgor</b>

### **Cefndir**

1. Mae'n rhaid i aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig sydd â phleidlais hysbysu'r Swyddog Monitro o'u buddiannau o dan y Cod Ymddygiad. Mae'n rhaid i'r Swyddog monitro gadw cofrestr o'r buddiannau hyn.

2. Mae'r gofrestr felly yn cynnwys y datganiadau 'ymlaen llaw' a wneir gan aelodau pan fyddant yn cymryd eu swyddi (mae'n rhaid iddynt hefyd gadw'r cofrestriad yma'n gyfredol). Mae hefyd yn cynnwys hysbysiadau o'r buddiannau mae aelodau yn eu datgan mewn cyfarfodydd.

3. Mae'r gofrestr yn cael ei chadw ar ffurf bapur ac ar gael i unrhyw un sy'n dymuno dod i mewn i'w gweld. Mae'n ofynnol bellach i'r Cyngor gyhoeddi'r Gofrestr Buddiannau Aelodau yn electroneg, ac felly mae hefyd ar gael ar wefan y Cyngor. Mae'n golygu y gellir gweld datganiadau pob aelod drwy eu tudalennau personol ar y wefan. Mae datganiadau a wneir mewn cyfarfodydd i'w gweld yng nghofnodion y cyfarfod hwnnw sydd hefyd i'w gweld drwy dudalen personol yr aelod. Gellir gweld y tudalennau yma drwy ddilyn y linc canlynol:

<https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/mgMemberIndex.aspx?bcr=1>

4. Atodir copi o'r ffurflen gofrestru ymlaen llaw i'r adroddiad hwn.

### **Argymhelliad**

5. Gofynnir i'r Pwyllgor am ei farn ar y broses o gofrestru buddiannau ac ar y ffurflen amgaeedig